Tri Yn Un, Aberpennar

Tri Yn Un yw'r enw ar y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ardaloedd Penrhiw-ceibr, Meisgyn a Pherthcelyn o Aberpennar, Rhondda Cynon Taf. Mae'r rhaglen yn cynnig cyfleoedd helaeth i'r trigolion gael hyfforddiant ym meysydd sgiliau bywyd a chydlyniant cymunedol ac i fynd ymlaen i swyddi ac addysg uwch.

Cymorth i bobl ifanc yw rhan fawr o waith tîm Tri Yn Un. Mae prosiect Mantais wedi bod yn llwyddiant nodedig wrth helpu pobl ifanc yn yr ardal i symud o broblemau megis cael eu gwahardd o'r ysgol i ddod o hyd i waith amser llawn rheolaidd. Sefydlwyd prosiect Mantais i helpu pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed. Y nod yw gwella bywydau pobl ifanc sy'n byw yn yr ardal Cymunedau yn Gyntaf trwy weithio ar sgiliau personol megis rheoli arian, entrepreneuriaeth, gwaith tîm, cyfathrebu, datrys problemau, arweinyddiaeth, cynllunio a threfnu.

Mae prosiectau eraill yn cynnwys menter straeon digidol a chlwb cerdded. Mae hybu iechyd yn un o brif flaenoriaethau tîm Tri Yn Un, a sefydlwyd partneriaethau llwyddiannus gyda Chyngor Chwaraeon Cymru a Chyngor Sir Rhondda Cynon Taf.

Mae tîm Tri Yn Un wedi cyfrannu at sefydlu cydweithfa fwyd sy'n cael ei chyflenwi gan gyfanwerthwr lleol ar y cyd gyda siopau groser lleol. Hefyd mae yna fforwm amgylcheddol sydd â chysylltiadau gydag ysgolion lleol a mentrau i ddosbarthu bylbiau golau ynni isel, synwyryddion carbon monocsid a gatiau grisiau trwy ymwelwyr iechyd.

Mae'r tîm yn deall pwysigrwydd hybu ymwybyddiaeth amgylcheddol a dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy. Mae ansawdd yr amgylchedd lleol yn un o'r ffactorau allweddol mewn lles cymdeithasol. Mae llawer o enghreifftiau o gwmpas Cymru o ych-a-fannau neu niwsans tipio anghyfreithlon yn dod yn ganolbwynt i weithredu cymunedol, gyda mwy o gydlyniant a hyder yn datblygu o hynny.

Glasbrennau (Saplings)

Dyfeisiwyd y prosiect hwn yn wreiddiol gan ddau grŵp oedd yn cydweithio gyda Chymunedau yn Gyntaf. Y ddau grŵp oedd K.I.C.K.S (Keep It Clean Kids), grŵp amgylcheddol, a Mouths of Miskin, grŵp i blant iau.

Gydag arian oddi wrth Gyngor Rhondda Cynon Taf a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, plannodd y grwpiau 600 o goed o rywogaethau sy'n gyffredin yn yr ardal, sef bedw arian, cerddin a helyg. Hefyd gwnaethant ffilm fer o'r enw 'Saplings'.

Bwriad y ffilm oedd codi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymysg pobl ifanc a newid eu hagweddau at faterion amgylcheddol megis tipio anghyfreithlon, sbwriel a diogelu mannau gwyrdd.

Roedd “The Phantom”, y cyfeirir ato yn y ffilm ‘Eco Worriers’, yn wirfoddolwr gyda K.I.C.K.S., a chafodd ei ysbrydoli i weithio gyda Chymunedau yn Gyntaf ar brosiect arall i blannu coed. Pan ddaeth y prosiect hwnnw i ben, parhaodd yr unigolyn hwn i blannu coed, gan ddefnyddio hadau brodorol a gasglwyd bob hydref. Mewn tair blynedd, ar ei ben ei hun, plannodd ryw 3000 o goed! Mae ei ymgyrch i ailgoedwigo Cwm Cynon yn parhau!

Edrychwch ar Saplings